

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu
DYDDIAD:	22 Mawrth 2023
LLEOLIAD:	Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron
TEITL:	Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a Chyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023
DIBEN YR ADRODDIAD:	Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar y penderfyniad a wnaed neu'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.
Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:	Fel y Pwyllgor Craffu a ddynodwyd i gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

CEFNDIR:

O dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Mae adran 39 hefyd yn nodi bod yn rhaid i bob BGC anfon copi o'i Gynllun Llesiant Lleol at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod Lleol.

CYNLLUN LLESIANT LLEOL CEREDIGION

Cefndir

Mae diweddariadau blaenorol wedi'u darparu i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ynghylch y broses o ddatblygu'r Asesiad o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol yng Ngheredigion. Yn benodol, darparwyd manylion y Cynllun Llesiant Lleol Drafft ar 23 Tachwedd 2022.

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cynhaliwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gynllun Llesiant Lleol Drafft Ceredigion 2023-2028 rhwng 25 Hydref 2022 a 31 Ionawr 2023.

Derbyniwyd cyfanswm o 41 ymateb i'r arolwg, gan gynnwys 7 ymateb ysgrifenedig ac ymgysylltiad gydag 13 ysgol gynradd, 3 ysgol uwchradd a'r Cyngor leuenctid. Ar y cyfan, roedd 88% o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno mai'r amcanion llesiant, fel y'u cyflwynwyd yn y Cynllun Llesiant Lleol Drafft, oedd y blaenoriaethau cywir.

Lle bo'n briodol, mae sylwadau wedi llywio'r diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun. Yn ogystal ag ystod o awgrymiadau a sylwadau yn y llythyrau a ddaeth i law, darparwyd canllawiau gwerthfawr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain i gyd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Llesiant Lleol gymaint ag y bo modd a bydd elfennau ychwanegol yn dylanwadu ar ddatblygiad y cynllun cyflawni.

Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd trwy'r arolwg a chynnwys y llythyrau wedi'u hadrodd yn llawn yn Adroddiad Crynhoi a Dadansoddi'r Cynllun Llesiant Lleol, **Atodiad 1**, ynghyd â dadansoddiad pellach.

Y casgliadau cyffredinol yn yr adroddiad crynhoi a dadansoddi yw bod y Cynllun wedi cael derbyniad da ar y cyfan a bod llawer o sylwadau defnyddiol wedi'u darparu a fydd yn gwella datblygiad y cynllun cyflawni manwl.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad cynigir rhai newidiadau i'r Cynllun, mae'r rhain wedi'u hamlygu yng Nghynllun Llesiant Lleol terfynol Ceredigion (**Atodiad 2**) er hwylustod.

Y Camau Nesaf

Bydd pob sefydliad sy'n aelod o'r BGC yn ystyried y diwygiadau arfaethedig yn eu cyfarfod ar 6 Mawrth 2023 gyda'r bwriad o gymeradwyo'r Cynllun drwy eu trefniadau llywodraethu arferol cyn y gall y BGC roi cymeradwyaeth derfynol i gyhoeddi'r Cynllun ym mis Mai 2023.

I gwblhau'r broses ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, bydd y Cynllun, ar ôl ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 4 Ebrill 2023 ac yn olaf i'r Cyngor llawn ar 20 Ebrill 2023.

Asesiad Effaith Integredig

Mae Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau ar gyfer Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ac mae wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

COFNODION DRAFFT CYFARFOD BGC CEREDIGION A GYNHALIWYD AR 6 MAWRTH 2023

Cyflwynir cofnodion drafft cyfarfod BGC Ceredigion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023 i'r Pwyllgor a gellir eu gweld yn **Atodiad 4**.

**LLESANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Do (Atodiad 3)
Integredig? Os na, nodwch pam**

Crynodeb:

Hirdymor:	Mae cynllunio hirdymor wedi ei wreiddio trwy gydol datblygiad y cynllun. Mae'r nodau a'r camau gweithredu yn y cynllun wedi'u datblygu i ymateb yn uniongyrchol i'r materion hirdymor a nodwyd yn Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion.
Integreiddio:	Mae'r BGC wedi ystyried sut mae'r nodau a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn effeithio ar gyrrff cyhoeddus yn y sir. Mae'r nodau a'r camau gweithredu wedi'u datblygu gyda dealltwriaeth o gydgyfrifoldeb am ganlyniadau ar draws gwasanaethau a sefydliadau. Mae egwyddorion y cynllun yn seiliedig ar sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cydweithio ar draws y sir i ychwanegu gwerth at yr hyn sydd eisoes yn cael ei wneud.
Cydweithio:	Mae holl bartneriaid y BGC wedi cydweithio drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun a bydd y gwaith o gyflawni'r cynllun yn cael ei wneud ar y cyd gan bartneriaid y BGC.
Cynnwys:	Mae rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn rhan o bob cam o ddatblygiad y cynllun. Mae'r BGC wedi hyrwyddo cyfranogiad, ymgysylltu a chyd-gynhyrchu. Mae'r rhain wedi cynnwys sesiynau gyda grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).
Atal:	Rhoddodd Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion gyfle i'r BGC nodi achosion sylfaenol y materion y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae'r nodau a'r camau gweithredu'n canolbwyntio ar bobl yn gweithredu drostynt eu hunain, ac yn rhoi ffocws cryf ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r camau'n ymdrechu i ostwng lefel yr ymyrraeth ym mywydau pobl dros amser lle bynnag y bo modd, gyda'r hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau sy'n newid.

ARGYMHELLION:

- i. Derbyn Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig.
- ii. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod BGC Ceredigion a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2023.

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Enw Cyswllt: Naomi McDonagh
Swydd: Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil
Dyddiad yr Adroddiad: 22 Mawrth 2023
Acronymau: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)